# Cylchgrawn Digidol

Digital Zine
Rhifyn 2
Issue 2

galeri

Croeso i ail rifyn cylchgrawn digidol Galeri.

Mae cryn dipyn o waith wedi bod yn mynd ymlaen ers y rhifyn cyntaf – mae gwaith cynnal a chadw anghenrheidiol, recriwtio a hyfforddi staff, cynllunio a pharatoi, cynnig Gofod Creu, croesawu tenantiaid nol i'r adeilad, ail agor y Café Bar - a bellach rydym wedi gallu ail-ddechrau rhaglen sinema rhan amser. Mae'r gwaith adeiladu lawr ar safle Cei Llechi hefyd wedi dirwyn i ben gyda tenantiaid wedi agor i fusnes – ewch lawr am sbec.

Gyda canllawiau Llywodraeth Cymru yn debygol o lacio (o'r 7fed o Awst), mi fyddwn yn adolygu ac addasu ein gweithrediadau yn unol â'r canllawiau. Erbyn mis Medi, rydym yn rhagweld y bydd gennym raglen ddigwyddiadau byw yn dychwelyd ac arddangosfeydd unwaith eto yn yr adeilad. Mae manylion y digwyddiadau a'r tocynnau ar werth yn barod – a byddwn yn ychwanegu mwy fel y maent yn cael eu cadarnhau.

Yn y cyfamser, hoffem unwaith eto ddiolch o waelod calon i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y cyfnod heriol yma i bawb. Rydym wir yn gwerthfawrogi eich negeseuon a'ch sylwadau o ran "methu aros" dod nol i Galeri ac mae'r adborth gan y cynulleidfaoedd sinema yn hynod gadarnhaol hefyd.

Mae ein dyled yn fawr hefyd i Gyngor Celfyddydau Cymru am gefnogaeth ariannol yn ystod y cyfnod drwy'r Gronfa Adfer. Mae'r gronfa wedi sicrhau ein bod wedi cadw pob un aelod o'n staff yn ystod y cyfnod cythryblus yma. Fel cwmni oedd (cyn Covid) yn cynhyrchu 85% o'n incwm ein hunain, heb y gefnogaeth yma – byddai effaith negatif sylweddol ar y cwmni, ein gwasanaethau a'n dyfodol.

Mae'r holl wybodaeth sydd ei angen arnoch o ran newyddion, canllawiau, digwyddiadau, tocynnau, bwydlenni ac oriau agor ar gael ar ein gwefan **galericaernarfon.com**

*Welcome to Galeri's second digital zine.*

*Since the first edition, we have been extremely between carrying out essential maintenance, staff recruitment and training, planning and programming events for the future, offering Gofod Creu, welcoming tenants back to the building, reopening the Café Bar and more recently providing a part time cinema programme. The regeneration work in Cei Llechi has also completed and businesses have started to open – please visit them and explore at your leisure.*

*With the Welsh Government guidelines likely to relax (from 7th of August), we will review and amend our procedures in-line with the new guidelines. By September, we envisage that the cinema will offer a wider range of films and screenings, live events will return and new exhibitions will be back in the building. Some events are already on sale and further information and tickets can be found on the website. We will be adding more as soon as we can contractually.*

*In the meantime, we would like to thank you for your support over the past 16 months. We have received hundreds of messages of support and comments from people who simply "cannot wait to return to Galeri". The feedback from cinema audiences is also extremely encouraging and is extremely reassuring for us as a company.*

*We would also like to publicly acknowledge and thank the Arts Council of Wales for their financial support through the Recovery Fund. The fund has secured the workforce of almost 50 members of staff. As a company who pre-Covid would generate 85% of our own income, without this support, it is difficult to imagine the negative impact it would have on the company, our work and the future.*

*In looking forward, please visit our website **galericaernarfon.com** for the latest news, guidelines, events, tickets, menus and opening hours.*

# Cynnwys / Contents


| | |
|---|---|
| Gŵyl Ffilm PICS | 4 |
| Portffolio / Codi'r Bar | 5 |
| Dod i nabod / Get to know | 11 |
| Cei Llechi | 13 |
| Gofod Creu | 15 |
| Beth Sydd Ymlaen / What's On | 26 |
| Un Noson Olaf | 27 |
| Agored 2021 | 29 |
| Cacennau Angie / Angie's cakes | 31 |
| Lles / Wellfare | 33 |
| Cyflenwyr Bwyd a Diod / Food and drink suppliers | 35 |



CEI LLECHI




# PICS


Gwyl Pics

Eleni mae Gŵyl PICS wedi symud ar-lein gyda sianel YouTube ei hun. Oherwydd y pandemig rydym wedi bod yn gweithio'n galed i ddod â chipolwg ar PICS i'r nifer sydd fel arfer yn cymryd rhan yn flynyddol yma yn Galeri.






Er mwyn eich ysbrydoli a helpu chi creu gwaith eich hun mae gennym rai o'r talentau ifanc gorau sy'n gweithio yn y busnes heddiw gan gynnwys Aled Llyr, Efa Blosse-Mason, Yannick Hammer a llawer o rai eraill.




O ddosbarthiadau animeiddio i sesiynau flogio rydym efo digon o amrywiaeth i chi. Ynghyd â hyn rydym wedi dechrau dod â rhai o'r hen ffilmiau sydd wedi cystadlu yn y gorffennol yn PICS i'n sianel YouTube. Hyd yn hyn, mae gennym dros 50 i chi ei wylio gyda mwy i ddod. Gwnewch yn siŵr eich bod yn tanysgrifio i'r sianel YouTube.







Mae Portffolio yn rhaglen gelfyddydol i bobl ifanc blwyddyn 10 ac 11 (14-16 oed). Mae'n gyfle i weithio gydag artistiaid proffesiynol i ddatblygu sgiliau a chael bod yn greadigol. Dros y cyfnod clo yn gwyliau Pasg 2021 fe gafodd 6 sesiwn creadigol dros zoom a 2 sgwrs artist.


Portffolio is an art programme for young people in Years10 and 11 (14 -16 years old). It's an opportunity to work with professional artists to develop skills and to be creative. During lockdown in the easter holidays 2021 we ran 6 creative workshops over zoom and two artist talks.


**Artistiaid Portffolio / Portffolio Artist:**
Jwls Williams, Mike Murray, Beca Fflur, Callie Jones, Ffion Pritchard, Manon Dafydd

**Artistiaid Sgwrs / Artists Talk:**
Rhiannon Gwyn, Rhys Grail, Justin Davies, Kristina Banholzer, Rhi Moxon, Paul Eastwood


@Portffolio_codirbar













"WAW, roedd hi wir wedi mwynhau y seiswn hefo callie, roedd hi wedi dysgu llwyth am y  techneg! Yn nol Anest dyma'r sesiwn orau! y gwaith da a'r cyfleoedd gwych da chi'n eu rhoi ir bobl ifanc, hyd yn oed drost zoom"

- Rhiant



Anest







"I enjoyed it so so much, although mine came out looking more like a rabbit or hare but I'm still so pleased. So I'd love to look back and have another go. Thanks"

- aelod Portffolio







"Mae o wedi mwynhau'r sesiynau yn porffolio fawr iawn, yn enwedig yr argraffu leino."

- Rhiant





Mae Codi'r Bar yn brosiect i bobl ifanc bl 12 -13 (16 – 18 oed). Cyfle i unigolion weithio gydag artistiaid proffesiynol i ddatblygu sgiliau a chael bod yn greadigol. Dros y cyfnod clo yn gwyliau Pasg 2021 aethom ni gynnal 6 sesiwn creadigol dros zoom a 2 sgwrs artist.





Codi'r Bar is an art project for young people in Years 12 and 13 (16 -18 years old). It provides an opportunity for individuals to work with professional artists to develop their skills and be creative. During the lockdown in the easter holidays 2021 we ran 6 creative workshops over zoom and two artist talks.






**ARTISTIAID CODI'R BAR ARTISTS:**
**Manon Awst, Glyn Price, Elly Strigner, Penglog, Karen Williams, Lora morgan**





**SGWRS ARTIST TALK:**
**Rhiannon Gwyn, Rhys Grail, Justin Davies, Kristina Banholzer, Rhi Moxon, Paul Eastwood**



"Diolch yn fawr am yr holl sesi-ynau ac am roi profiad mor wych i fi, diolch yn fawr iawn!"

- aelod Codi'r Bar









Beth oedd yr elfen gorau o'r prosiect?
*What was the best part of the project?*

"Talking to artists about their experiences!" - Aelod Codi'r Bar

"Being able to try completely different and new techniques" - Aelod Portffolio

Gweithio gyda gwahanol gyfryngau"
- Aelod Portffolio

Diolch am gefnogaeth / Thank you for the support
Ysgol Syr Hugh Owen
Ysgol Brynrefail
Ysgol Tryfan
Ysgol Friars
Ysgol Dyffryn Ogwen

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales
Oriel Môn
Cyngor Sir Ynys Môn
Isle of Anglesey County Council
Ariennir gan y Loteri
Lottery Funded
Criw Celf
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cyngor Gwynedd Council

# Dod i nabod

**Dion Jones**
**Tîm  Creadigol - Marchnata Digidiol**



Efallai bod rhai ohonoch yn adnabod Dion fel un o aelod o Dîm Gofal Cwsmer yma yn Galeri gan ei fod o wedi bod yn aelod o staff ers 2018. Ers mis Chwefror mae Dion wedi dechrau swydd newydd yma fel aelod o'r Tîm Creadigol a'i rôl o fewn y tîm ydi marchnata digidol.




Ers i Dion adael Ysgol Brynrefail yn 2018 mae o wedi bod yn brysur iawn yn greadigol. Un o'i hoff ddiddordebau ydi chwarae gitâr a chanu gyda'i fand Alffa. Mae Alffa yn ddeuawd roc o Lanrug ac mae'r ddau wedi cyflawni eithaf tipyn mewn amser byr. Wrth ryddhau ei senglau cyntaf, Alffa roedd y band cyntaf i gael can Cymraeg i gyrraedd miliwn o ffyrdiadau ar spotify gyda'r gan 'Gwenwyn'. Erbyn hyn mae gan Alffa dros 6 miliwn o ffrydiadau gyda chaneuon fel 'Pla, Full Moon Vulture a Black Angel'. Gyda llwyddiant y senglau rhyddhawyd y band eu halbwm cyntaf sef 'Rhyddid o'r cysgodion gwenwynig' yn 2019. Gyda blwyddyn ofnadwy o brysur rhai o'i uchafbwyntiau oedd chwarae The Great Escape Festival, Sound Basement yn Lerpwl, The Lexington yn Llundain a Chlwb Ifor Bach yng Nghaerdydd. Cafodd Alffa hefyd gyfle i gyfarfod Michael Sheen wrth i'r band chwarae ar yr un noson a James Dean Bradfield yng Nghwpan Digartref y Byd yng Nghaerdydd.



Ers y cyfnod clo mae Dion wedi mentro llwybr arall creadigol wrth fynd mewn i'r byd ffotograffiaeth ffilm. “Dwi wastad wedi bod efo diddordeb mewn ffotograffiaeth ond heb gael cyfle i fentro yn iawn. Roeddwn wrth fy modd cydweithio efo ffotograffwyr tra yn gigio a chael cadw'r atgofion ar ffurf llun. Mae ffotograffiaeth ffilm yn cynnwys elfen hudolus wrth dynnu'r llun a methu gweld yn union be sydd wedi cael ei saethu nes bod y ffilm yn cael ei ddatblygu”.  Dyma ambell lun gan Dion.







Un o hoff ddiddordebau eraill Dion ydi casglu recordiau finyl. Erbyn hyn mae ganddo dipyn o gasgliad. O recordiadau Soul i Roc i gerddoriaeth electroneg mae tast Dion ym mhobman “Dwi wrth fy modd yn casglu finyls. Dwi'n caru’r teimlad ohonynt a gweld fy nghasgliad yn tyfu. Ond dwi ddim yn meddwl bod y dyn post yn hoff iawn o fy *addiction*”! Rhai o’i hoff siopau annibynnol ydi Piccadilly Records, Friendly Records, Drift Records a Spiller Records. Ei hoff finyl o’i gasgliad ydi fersiwn Record Store Day 2018 o ‘Miami’ gan Baxter Dury sydd yn cynnwys ail gymysgiad gan Jarvis Cocker.



# CEI LLECHI

Rydym yn falch o gyhoeddi bod y gwaith adeiladu ac adfywio safle Cei Llechi bellach wedi dirwyn i ben.

Mae'r prosiect arbennig £5.8m yma gan Ymddiriedolaeth yr Harbwr wedi bod ar y gweill ers 2012, gyda Galeri yn ymuno â'r prosiect yn 2015. Wrth symud ymlaen, mae Galeri wedi arwyddo prydles tymor hir i reoli a rhedeg Cei Llechi a bod yn gyfrifol am yr 19 o unedau gwaith/manwerthu, 3 fflat gwyliau, ystafell gyfarfod ac arddangosfa ar hanes a threftadaeth Cei Llechi.

Bydd gweithwyr yn parhau ar y safle yn gweithio yn yr unedau unigol wrth i denantiaid gynllunio a pharatoi i agor. Mae ambell gwmni wedi agor ar y safle yn barod - Hufen iâ Red Boat, Cwt Celf a Oriel y Castell.

Mae'r prosiect wedi ei ariannu drwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a thrwy gyllid Llywodraeth Cymru fel rhan o becyn cyllido prosiect glannau Caernarfon.

Am fwy o fanylion am y prosiect ac ymholiadau am unedau gwaith/manwerthu:

**ceillechi.cymru**







CRONFA DREFTADAETH HERITAGE FUND

YMDDIRIEDOLAETH HARBWR CAERNARFON · CAERNARFON HARBOUR TRUST

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

Cadw

Llywodraeth Cymru Welsh Government

*We are delighted to announce that the construction work at Cei Llechi has been completed.*


*This unique £5.8m regeneration project has been on the horizon since 2012, with Galeri joining the project in 2015. Moving forward, Galeri have now signed a long-term lease and will be responsible for the day-to-day management of the 19 workshop/retail units, 3 holiday lets, meeting room and the interpretation area presenting the important history and heritage of Cei Llechi - locally, regionally, nationally and internationally.*

*Tenants have started to move into Cei Llechi. Already opened are Red Boat Ice Cream, Cwt Celf and Oriel y Castell.*

*The project has been made possible with financial support from the Heritage Lottery Fund and the Welsh Government as part of the Caernarfon Waterfront initiative.*

*For further information and to enquire about the units, please visit:*

***ceillechi.cymru***









# GOFOD CREU

Mae Gofod Creu yn parhau! Darllenwch ymlaen i weld pwy sydd wedi bod yn creu yn Galeri dros y misoedd diwethaf.

*Gofod Creu remains busy! Read forward to see who has been creating in Galeri over the past few months.*



















# Elin Jones


**Beth wyt ti'n creu ar hyn o bryd?**
Ar hyn o bryd dwi'n gweithio gyda phlant meithrin i arbrofi, dysgu a chwarae trwy gelf.

**Pwy yw dy hoff artistiaid/dylunwyr?**
Rwyf yn dilyn fy hoff artistiaid ar instagram, dyma dri o'r rhai dwi'n hoffi orau...
Kathrin Marchenko, Julie Campbell ac Emily Barletta- artistiaid tecstilau sydd yn gweithio gyda brodwaith mewn dulliau unigryw.

**Pa lefydd creadigol wyt ti yn edrych ymlaen at ymweld?**
Rwyf yn edrych ymlaen at ymweld ag orielau lleol. A hefyd yn gyffredinol mynd o amgylch llefydd i gael ysbrydoliaeth.

**Beth yw dy hoff ddeunyddiau celf i'w defnyddio yn dy broses celf ar hyn o bryd?**
Gwlân - arddull o crochet a chreu dyluniadau fy hun. Rwyf hefyd yn hoff o ddefnyddio dyfrlliw i greu dyluniadau ar gyfer defnyddiau.

**Beth wti wedi methu dros y cyfnod rhyfedd yma?**
Rwyf wedi colli ymweld teulu a ffrindiau fel pawb arall, â chael ymweld orielau lleol.


# Nader Kohbodi

## What's your favourite art medium to use in your practice at present?

I have regained a passion for more traditional mediums recently. My current favourites are Woodcarving/Engraving & Watercolour.

## What is your usual playlist while working/creating?

Varies a lot depending on my workflow.. from lofi hip hop radio to Rammstein.

## Which creative place are you looking forward to visit when things re-open?

One of the last exhibitions I visited before lockdown was at L'Atelier des Lumières in Paris, which I would love to visit again once it re-opens. I'm also looking forward to visiting Yayoi Kusama's Infinity Mirror Rooms at the Tate Modern, which has been rescheduled for this year.








# BOI

## Pwy 'di BOI?

'BOI yw band newydd sy'n cynnwys dau gyn-aelod o'r band o Waunfawr, Caernarfon Beganîfs/Big Leaves, ynghyd â Heledd Watkins (HMS Morris), Ifan Emlyn (Candelas) a Dafydd Nant (Bob, Sibrydion). Ffurfiwyd y band yn y flwyddyn cyn Mawrth 2020, a mynd ati i drio recordio albwm, gan orffen yr albwm dros y cyfnod clo mewn amrywiol leoliadau dros Gymru!
Bydd yr albwm CORON O CHWINC yn cael ei ryddhau ar Recordiau Crwn – label newydd Osian Gwynedd - ar Fehefin 25 yn ddigidol ac fel CD drwy Bandcamp, ac yna ar gael ar y platfformau digidol arferol.'



## 'Chydig am y sesiwn gan Rhodri Siôn, prif leisiydd BOI...

'*Chance call* wnaeth ddechrau hyn i gyd – Osian yn dod i fyny o Gaerdydd am ddau ddiwrnod ar ôl y cyfnod clo. Wedyn gweld cyfle i ffilmio rhywbeth, er bod ni dim yn gallu cal pawb at 'i gilydd. Felly fersiwn eithaf amrwd ac onest o'r gân Tragwyddoldeb oedd y syniad, a recordio rhywbeth 'byw' – felly jest llais a phiano, wel, y Steinway Grand sydd gan Galeri.

O'dd o jest yn neis gweld pobl eto, heb sôn am gael cyflau i chwarae tiwn yn fyw mewn *feniw*. Y gobaith ydi cael dod nôl, ella efo cynulleidfa, ella i wneud mwy o bethau fedrwn ni rannu'n ddigidol.

Diolch *masif* i Galeri am gynnig yr adnoddau yma i ni wrth i ni drio ffeindio ffordd drwyddi yn 2020-21. Gobeithio y gwnewch chi fwynhau'r albwm.'

TRAGWYDDOLDEB








BOI

@blahdblahboi
youtu.be/xqHOA8bF9kU

# George Amor

“Fel artist, mae newid y cynefin ti’n creu ynddi yn gallu bod yn beth positif, felly manteisiais ar y cyfle i ddefnyddio un o ystafelloedd gwag Galeri am ychydig o ddyddiau ym mîs Rhagfyr.

Mewn gwirionedd, roedd niwl 2020 wedi cymysgu hefo’r synnwyr y bod cyfnod clo arall rownd y gornel, yn creu teimlad o ar-gollrwydd. Ond roedd dod i Galeri er mwyn defnyddio Gofod Creu yn ddihangfa groesawgar. Braf gweld ambell i wyneb cyfarwydd a chyfarfod ambell un newydd hefyd!

Na, *neshi* ddim eistedd i lawr a sgwennu albwm arall. *Neshi* ddim sgwennu *symphony* newydd chwaith tra o’n i yn Galeri. *Neshi* jyst eistedd hefo ‘Nancy’ (un o fy allweddellau) a *twinklo* o gwmpas hefo ambell i syniad heb roi llawer o bwysau ar fy hun a dyna’n union oedd angen. Felly diolch, Galeri!

Mae 'na lot o bwysau arnom ni i fod yn gynhyrchiol. Rhywbeth sydd ella wedi deillio o’r cyfryngau cymdeithasol? Ond dwi’n credu bod o’n rhithganfyddiad. Ewch ar cyflymder eich hunain, neu mae na’ siawns i chi fethu’r golygfeydd!

Ychydig o fisoedd wedyn fe wnaeth fy mhrif brosiect, Omaloma rhyddhau EP o’r enw ‘Roedd’ ar Recordiau Cae Gwyn.

Mae Roedd yn gasgliad o ganeuon cafodd ei greu yn ystod a *jyst* ar ôl y cyfnod clô cyntaf. Mi oedd yr holl broses o recordio’r EP yn wahanol i’r arfer oherwydd y pandemic. Cafodd o ei rhoi at ei gilydd rhyngof i ym Mhenmachno a Llŷr Pari oedd yn ynysu lawr yng Nghaerdydd ar y pryd. Ar ôl i’r canllawiau lacio rhywfaint, dychwelodd Llŷr i Stiwdio Glanllyn (RIP) ym Melin Y Coed a wnaethom ni orffen recordio’r casgliad.

Mae o wedi cael ymateb llawer gwell nag o’n i’n disgwyl gyda chefnogaeth gan bobl fel Tom Ravenscroft a Gideon Coe draw ar BBC Radio 6 Music yn ogystal â llwythi o *sbins* ar orsafoedd radio yng Nghymru ac o amgylch y byd.

Mae o bendant y stwff mwyaf *outspoken* mae Omaloma wedi neud hyd yn hyn. Mae o’n record fer sy’n trafod dipyn mewn jyst pedwar cân, o anghyfartaledd yn America i gyfalafiaeth y sector awyr agored yma yn Eryri. Mae o fel mini Omaloma *mood board*.

Dwi wedi blino ar greu cerddoriaeth pop sgleiniog wan, dwi’n meddwl. Mae’n amser symud ymlaen i synau gwahanol...”




Lyra Film




'Roedd' ar gael i'w brynnu ac i ffrydio rwan

# Manon Dafydd

'Dwi'n artist gweledol o'r Felinheli sy'n cael ysbrydoliaeth o bethau dydd i ddydd yn fy ardal leol ac o fyd natur; yn enwedig y blodau gwylltion hyfryd.'













Bydd Manon yn dychwelyd i Gofod Creu ym mis Medi.
**@celfmanon**

# Dienw

Braf oedd cael Dienw yn nol yn Galeri. Mae Twm Herd ac Osian Land yn ddau gyn aelodau o'r project Marathon Roc,  felly mae gweld y ddau wedi datblygu gymaint yn fraint. Dyma gyfweliad rhwng Dion Jones (Galeri) ac Osian Land o'r band.

**1.Be 'da chi wedi bod yn ei wneud yn Galeri?**
Ymarfer cyn mynd yn nol i'r stiwdio i recordio ein sengl newydd. Braf oedd cael bod yn nol yn ymarfer ar ôl y cyfnodau clo a chael taflu syniadau o gwmpas.

**2.Beth ydi di hoff albwm ar hyn o bryd?**
Albwm gora ar hyn o bryd ydi 'Mars is a very bad place for love' gan The Breathing Effect, neu ella 'Katy Lied' gan Steely Dan. Dau albwm sydd yn wahanol iawn, ond heini ydi'r ddau o fy mandiau gorau ar hyn o bryd. Dwi'n gwrando ar bob math o fiwsig, ond dwi'n mwynhau miwsig o'r 70's a'r 80's ar y funud, yn enwedig Steely Dan.

**3.Ym mhle rydych edrych ymlaen at chwarae unwaith fydd gigs yn ei ôl?**
Rydym ni'n edrych ymlaen at chwarae dipyn o lefydd. Clwb Ifor bach wastad yn hwyl a hefyd llefydd fel Paddy's ym Mangor.



**4.Hoff atgof cerddorol cyn covid?**
Nath fi a Twm fwynhau chwarae Clwb Ifor Bach tro dwytha ac oedd hwnan, ddipyn o milestone i ni fel band. Dwi hefyd yn mwynhau mynd i recordio. Ond yn bersonol oedd cael recordio a pherfformio y gan Babi Mam gyda Alffa yn Maes B yn uchafbwynt.

**5.Beth fysa eich lein-up delfrydol?**
Endaf Emlyn, Derwyddon Dr Gonzo, Ffa Coffi Pawb



**@dienwband**

# MA Celf Gain Fine Art

Coleg Menai

## Simone Williams



## Niki Cotton








## Kate Parker

I was given the amazing opportunity to work in the art space at Galeri for a month on an artist residency program. I was given total free range of the space to use in any way I saw fit, and alongside two of my other MA classmates we created an exhibition highlighting location, movement and time.

After the numerous lockdowns and restrictions, it felt so good to be in an art space once again. Having little to no studio space and time over the past year, working in the art space at Galeri gave us the perfect opportunity to display our works and feed of eachother.





# Be’ sydd ymlaen

*What’s on*

28.08.21 - **André Rieu: Together Again**


07.09.21 - **Mick Fleetwood & Friends**
15.09.21 - **Olwyn Lliw**
18.09.21 - **Calan**
24.09.21 - **Darkside: The Pink Floyd Show**
25.09.21 - **Darkside: The Pink Floyd Show**
28.09.21 - **Romeo & Juliet**

13.10.21 - **Olwyn Lliw**
13.10.21 - **The Rheingans Sisters**
23.10.21 - **Reslo Byw / Welsh Wrestling**
30.10.21 - **Noson yng Nghwmni Gruffud Wyn**

05.11.21 - **George Egg - Movable Feast**
06.11.21 - **Robert White: The Tank Top Tour 2**
17.11.21 - **Olwyn Lliw**
20.11.21 - **Omar Sosa & Seckou Keita**
26.11.21 - **Blazin' Fiddles**

15.12.21 - **Olwyn Lliw**
16.12.21 - **Llygoden yr Eira**
17.12.21 - **Llygoden yr Eira**
18.12.21 - **Llygoden yr Eira**

02.03.22 - **Pete Whittaker: Solo & Free**
26.03.22 - **Mike Bubbins: Throwback**
08.04.22 - **Joel Dommett: Unapologetic (if that's ok?)**
16.04.22 - **Alvin Youngblood Hart's Muscle Theory**
21.04.22 - **Dean Friedman**
06.05.22 - **Catrin Finch & Seckou Keita**



# UN NOSON OLAF

**O'u hoff fwyd i'w lein-yp delfrydol, ymunwch â Dion a Naomi wrth iddynt ddysgu sut y byddai eu gwesteion yn cydlynu eu Un Noson Olaf nhw.**

*From their favourite food to their ultimate line-up, join Dion and Naomi as they learn how their guests would coordinate their 'Un Noson Olaf' ('One Last Night').*

**Yr artist, cerddor a ffotograffydd Rhys Grail yw'r gwestai cyntaf yn trafod gyozas, artistiaid dychanol a chynnig tatŵs am ddim mewn gig...**

*The artist, musician and photographer Rhys Grail is the first guest, discussing gyozas, satirical artists and offering free tattoos in a gig...*

**Y cerddor ac aelod newydd o staff, George Amor ydi ein gwestai ar gyfer yr ail bennod. Mae George yn trafod gigs yn y sinema, Star Wars a bwyta pysgod cregyn.**

*The musician and new member of staff, George Amor is our guest for the second episode of the podcast. Join us as we talk about gigs in the cinema, Star Wars and eating shellfish.*





Pwy hoffech weld ar y pennod nesaf? Gadewch i ni wybod ar ein cyfryngau cymdeithasol!

# UN NOSON OLAF

## GEORGE AMOR

**Pennod 2 allan rwan!**
***Episode 2 out now!***



# Agored 2021

**Gwobr: £1,000**

Mae ein cystadleuaeth celf yn nôl eleni, diolch i'r noddwyr Gwyn a Mary Owen.
Ewch i **www.galericaernarfon.com/agored2021**
i ymgeisio ac am fwy o wybodaeth.

***Prize: £1,000***

*Galeri's art competition is back, thank you to our sponsors Gwyn and Mary Owen.*
*Go to www.galericaernarfon.com/agored2021*
*to apply and for more information.*



CYN ENNILLYDD
*PREVIOUS WINNER*
**Gwenllian Llwyd**



Dyma Gwenllian Llwyd ein cyn ennillydd. Mae Gwenllian fel arfer yn gweithio drwy gyfrwng ffilm. Pwysleisia'r ffilm 'Dirywiad a Dadfeiliad' y golled sy'n amlwg yn niwylliant crefyddol, sydd wedi arwain at ddirywiad yn niwylliant Cymreig drwy'r golled o gwmnïaeth cymdogaeth, traddodiadau a dirywiad yr iaith Gymraeg. Mae Gwenllian hefyd yn gwneud gemwaith o dan yr enw Gemwaith Gwennol.
**@gemwaith_gwennol_jewellery**

*Here is Gwenllian Llwyd our previous winner of Agored. Gwenllian primarily works through the medium of film. The film 'Dirywiad a Dadfelliad' Decline and Decay highlights the obvious loss of religious culture, which has led to a decline in Welsh culture through the loss of neighborhood companionship, traditions and the decline of the Welsh language. Gwenllian also makes jewellery under the name Gwennol Jewellery.*
**@gemwaith_gwennol_jewellery**



# CANMOLIAETH UCHEL

*HIGHLY COMMENDED*

## Rhiannon Moxon




Dyma waith Rhiannon Moxon. Ennillodd Rhiannon deitl canmoliaeth uchel. I weld fwy o waith Rhiannon cerwch draw i'w gwefan **rhimoxon.com / @rhimoxon.**

*Here are some photos of Rhiannon Moxon's work. Rhiannon was given the highly commended title in the previous Agored. To see more of Rhiannon's work head over to* ***rhimoxon.com / @rhimoxon.***



Mae'r printiau hyn yn cyflwyno eiliadau prin o chwilfrydedd chwareus, wedi'u haenu â dyhead am gysylltiad dyfnach â'n planed Y Ddaear. Maent yn cwestiynu'r cysyniad o Hiraeth (hiraeth truenus rhywbeth sydd eisoes wedi mynd) fel hiraeth amgylcheddwr, am dirwedd naturiol, pur a heb ei gyffwrdd gan ddwylo dynol, sy'n teimlo'n fwyfwy allan o gyrraedd.

*These prints present fleeting moments of playful curiosity, layered with a yearning for a deeper connection with our planet Earth. They interrogate the concept of Hiraeth (woeful longing of something already gone) as an environmentalist longing, for a natural landscape, pure and untouched by human hands, that feels increasingly out of reach.*

# DEWIS Y BOBL

*PEOPLE'S CHOICE*

## Lleucu Non





Dyma waith artist a myfyriwr ifanc o Ddyfryn Nantlle sef Lleucu Non. Mae hi wedi dysgu ei hun sut i animeidio'n ddigidol drwy ddefnyddio'r dull traddodiadol o ddarlunio gyda llaw. I weld fy o waith Lleucu - **@lleucunon.**

*Lleucu Non is an artist and student from Dyffryn Nantlle. She taught herself how to animate digitally through the traditional method of drawing by hand. To see more of Lleucu's work -* ***@lleucunon***



# Cacennau Angie

## *Angie's Cakes*



Mae Angie wedi bod yn aelod o staff ers sawl blwyddyn erbyn hyn, ond yn y ddwy flynedd diwethaf mae hi wedi bod cael hwyl arni yn pobi cacennau yng nghegin Galeri. Dyma rysáit Cacen Goffi gyda Chnau Ffrenig...

*Angie has been a member of staff for several years, but over the last two years she has been baking here in the kitchen in Galeri. Here is a recipe for a Coffee and Walnut Brittle cake...*

### Cynhwysion

**Teisen Goffi**:
220g menyn hallt
220g siwgr caster
220g blawd hunan-godi
1 llwy de o powder pobi
4 Wy
3 llwy de o gronynnau coffi
1 llwy de o lefrith
¼ llwy de o halen

***Walnut Brittle***:
25g o gnau ffrenig
40g o siwgr caster

***Buttercream***:
150g o fenyn
350g o siwgr eising
2 llwy de o gymysgedd coffi
2 llwy de o lefrith

### *Ingredients*

***Coffee Cake:***
*220g salted butter220g caster sugar*
*220g self-raising flour*
*1 tsp baking powder*
*4 eggs*
*3 tsp coffee granules*
*1 tbsp milk*
*¼ tsp salt*

***Walnut Brittle:***
*25g walnuts*
*40g caster sugar*

***Buttercream:***
*150g butter, softened*
*350g icing sugar*
*2 tbsp coffee mixture*
*2 tbsp milk*



**Dull**
Cymysgwch 70ml o ddŵr berwedig gyda'r gronynnau coffi. Irwch a leiniwch ddau dun cacen gron 20cm. Cynheswch y popty i 160C. Curwch y menyn a'r siwgr at ei gilydd nes eu bod yn ysgafn ac yn fflwfflyd. Ymgorfforwch yr wyau un ar y tro, gan gymysgu rhwng pob ychwanegiad. Rhidyllwch y blawd, y powdr pobi a'r halen i mewn. Arllwyswch 2 lwy de o'r gymysgedd coffi a'r llaeth a'i blygu nes ei fod yn llyfn ac wedi'i gyfuno. Rhannwch y cytew rhwng y tuniau cacennau a'i bobi am 25 munud nes eu bod yn euraidd. Ar ôl i'r cacennau oeri, arllwyswch dros 3 llwy de o'r gymysgedd coffi dros bob un o'r sbyngau.

***Walnut Brittle***
Tra bod y gacen yn pobi, gwnewch y cnau Ffrengig yn frau. Rhowch y cnau Ffrengig i mewn i badell sych a'i dostio dros wres canolig am 3-4 munud nes eu bod yn euraidd. Ar ôl ei dostio, tynnwch ef allan ai roi ar hambwrdd wedi'i leinio â memrwn pobi. Mesurwch y siwgr ac ychwanegwch 1.5 llwy de o ddŵr i mewn i sosban. Coginiwch dros wres isel nes bod y siwgr wedi toddi a bod yr hylif yn glir. Gan gymryd gofal i beidio â throi gormod, cynyddwch y gwres a'i ferwi nes bod y siwgr yn lliw euraidd a charamel. Tynnwch o'r gwres a'i arllwys yn gyfartal dros y cnau Ffrengig. Ar ôl iddo oeri, torrwch y *brittle* yn fân gyda chyllell.

***Buttercream***
Curwch y menyn nes ei fod yn ysgafnhau mewn lliw, rhidyllwch y siwgr eisin, halen ac arllwyswch y llefrith a'r coffi i mewn. Trowch nes ei fod yn llyfn ac yn ysgafn.

**I Addurno**
Rhannwch hanner y *buttercream* dros un o'r sbyngau, yna gwasgarwch dros hanner y *walnut brittle*. Dorwch y sbwng arall ar ei ben a gwasgarwch gweddill y *buttercream* ac y *walnut brittle* sy'n weddill.

***Method***
*Mix 70ml of boiling water with the coffee granules. Grease and line two round 20cm cake tins. Preheat the oven to 160C fan. Beat together the butter and sugar until light and fluffy. Incorporate the eggs one at a time, mixing in between each addition. Sieve and fold in the flour, baking powder and salt. Pour in 2 tbsp of the coffee mixture and the milk and fold until smooth and just combined. Divide the batter between the cake tins and bake for 25 minutes or until golden. Once the cakes have cooled, drizzle over 3 tbsp of the coffee mixture over each of the sponges.*

***Walnut Brittle***
*While the cake is baking, make the walnut brittle. Tip the walnuts into a dry pan and toast over a medium heat for 3-4 minutes until golden. Once toasted, tip onto a tray lined with baking parchment. Measure the sugar and add 1.5 tbsp of water into a saucepan. Cook over a low heat until the sugar has dissolved and the liquid is clear. Taking care not to stir too much, increase the heat and boil until the sugar is golden and caramel colored. Remove from the heat and pour evenly over the walnuts. Once cooled, chop the brittle finely with a knife.*

***Buttercream***
*Beat the butter until it lightens in color, sieve in the icing sugar, salt and pour in the milk and coffee. Whisk until it becomes smooth and light.*

***To Decorate***
*Spread half the buttercream over one of the sponges, then sprinkle over half the walnut brittle. Sandwich the other sponge on top and spread over the remaining buttercream and sprinkle over the remaining brittle.*

# Lles
# Welfare

Tro yma penderfynnwyd gofyn wrth aelodau or Tîm Gofal Cwsmar. Felly dyma weithgareddau a chaneuon sydd yn helpu nhw'n iddynt ymlacio.

*This time we asked members of our Customer Care Team to select activities and songs that makes them happy/relaxed.*



## Mared Williams

1. Ioga
   *Yoga*

2. Ysgrifennu
   *Writing*

3. Creu celf at gyfer gemau cyfrifiadurol
   *Making art for computer games*

Glass Animals - Pork Soda
Videoclub - Amour Plastique
Easy Life - Nightmares
Brittany Howard - Stay High
STRFKR - Rawnald Gregory Erickson the Second






## Mared Parry

1. Peintio
   *Painting*
2. Karate
   *Karate*
3. Dringo
   *Climbing*

Liam Gallagher - Now That I've Found You
Sam Fender - Hypersonic Missiles
Black Pumas - Colours
Stereophonics - Song for the Summer
Alice Merton - No Roots






## Sophie Craig

1. Mynd am dro gyda'r plant
   *Going for a walk with the kids*

2. Peintio fy ngwinedd
   *Painting my nails*

3. Gwylio pel-droed
   *Watching football*



Colorama - Dere Mewn
Maharishi - Tŷ ar y Mynydd
Bryn Fôn - Rebal Wicend
Y Bandana - Cân y Tân
Yr Ods - Y Bêl yn Rowlio

## Kieran Gaffey



1. Gwrando ar gerddoriaeth
   *Listening to music*

2. Gwylio ffilmiau
   *Watching films*

3. Gwylio Formula 1
   *Watching Formula 1*




Red Hot Chili Pepoers - Under the Bridge
Funkadelic - Maggot Brain
Eric B & Rakim - Paid in Full
Soul of Mischief - 93 Til Infinity
Bob Dylan - The Man in Me

Cerwch i wrando ar ein rhestr chwarae Lles / Welfare ar Spotify Galeri!
*Go and listen to our playlist Lles / Welfare on Galeri's Spotify!*

# Cyflenwyr Bwyd

*Food Suppliers*

Dyma restr o ein cyflenwyr bwyd a diod yma yn Galeri. Rydym yn falch o gynnig cynnyrch lleol, cefnogi busnesau bach ac yn ddiolchgar am eu gwasanaeth.
*Here is a list of our food and drink suppliers. We pride ourselves on sourcing local produce, supporting small buisnesses and we are grateful for their service.*

Harlech ydi ein prif gyflenwyr bwyd, o gynhwysion i lefrith a bwydydd dydd i ddydd y gegin. Mae'r cwmni bellach yn 49 mlwydd oed, felly mae blwyddyn mawr ou blaen. Harlech.co.uk

*Harlech is our main food supplier, from ingredients to milk and day to day food. The company is now 49 years old, they have a big year coming up! Harlech.co.uk*

HARLECH
EST FOODSERVICE 1972
GWASANAETH BWYD



O.G Owen ai Fab yw ein cyflweyr cig. Mae'r cwmni wedi bod yma yng Nghaernarfon ers 1939 a does neb gwell am gig lleol Cymreig. Ogowenandson.co.uk

*O.G Owen & Son is our meat supplier. The company has been here in Caernarfon since 1939 and there is no better source for fresh local meat! Ogowenandson.co.uk*

Mae Bwydydd Oren (Ffrwythau DJ yn wreiddiol) yn fusnes teuluol sydd yn cael ei redeg gan Gethin Dwyfor o'u uned ym Mhenryndeudraeth. Yn fanwerthwyr sydd yn gwasanaethu cwsmneriaid masnachol ac yn eu cartrefi ers 1980 – mae'r busnes bellach yn gwasanaethu Gwynedd, Môn a thu hwnt gyda gwasanaeth dosbarthu cynnyrch tymhorol o safon. Orenfoods.co.uk

*Bwydydd Oren (formerly DJ Fruits) are a family run business based in Prnrhyndeudraeth led by Gethin Dwyfor. They have been supplying domestic and commercial customers with fruit and vegetables since 1980 and now cover Gwynedd, Anglesey and beyond with doorstep deliveries of fresh quality products. Orenfoods.co.uk*

# Cyflenwyr Diod

*Drink Suppliers*

Mae Bragdy Mona yn newydd i far Galeri. Sefydlwyd y bragdy yn 2018 gan 7 ffrind. Ers hynny mae'r cwrw wedi mynd o nerth i nerth. Dewch draw i drio Cybi Felyn, Mona IPA, Pabo neu Eilian! Bragdymona.co.uk

*Mona Brewery is new here at Galeri! The brewery was founded only in 2018 by 7 friends. Come over to try Cybi Felyn, Mona IPA, Pabo or Eilian.* Bragdymona.co.uk

Rydym ni wedi gwerthu Cwrw Llŷn ers sawl blwyddyn rŵan. Rydym ni wrth ein boddau yn gweld pobl yn trio'r holl gwrw gwahanol sydd ar gael. Y rhai mwyaf poblogaidd sydd yn brin ar ein silffoedd ydi Porth Neigwl a Seithennyn. Cwrwllyn.cymru

*We have supplied Cwrw Llŷn  for several years now. We love to see our customers try all the different beers. The most popular ones are Porth Neigwl and Seithenyn.* Cwrwllyn.cymru

Mae'n bleser cael Brgady Mŵs Piws yma ar ein silffoedd. Mae'r cwmni yn boddi mewn gwobrau. Ein ffefrynnau yma yn Galeri ydi Ysgawen a Chwrw Eryri. Purplemoose.co.uk

*It's a pleasure to have Purple Moose Brewery on our shelves. The company drowns in one award after another. Our favorites here are Ysgawen and Eryri. Purplemoose.co.uk*

Mae Pant Du wedi ei leoli tafliad carregi ffwrdd o Galeri (8 milltir!). Mae eu seidr yn boblogaidd iawn yma. Mai'n hi'n fraint gallu cynnig cynnyrch mor lleol! Pantdu.co.uk

*Pant Du is located a mere 8 miles away from Galeri. Their cider is very popular here. It's such a great feeling being able to supply such a local product! Pantdu.co.uk*




Mae Afallon Môn hefyd yn newydd i Galeri. Mae'r cwmni o Fôn wedi bod yn tynnu dipyn o sylw, felly roedd rhaid i ni gael potel yn y bar. Edrychwn ymlaen i chi allu mwynhau'r Jin lleol yma! Afallonmon.com

*Afallon Môn is new here to Galeri. We can't wait for you to try it! Afallonmon.com*

Dwyfor sydd wedi bod yn cyflwenwi coffi i Galeri ers sawl blwyddyn bellach. Ar hyn o bryd rydym ni'n defnyddio y blend 'exclusive' sydd yn cael ei dyfu yn India. Dwyfor.com

*Dwyfor Coffee has supplied our coffee for serveral years. Currently we are using the 'exculsive' blend which is grown in India.* Dwyfor.com

# Diolch yn fawr
# Thank you

galeri

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyngor Gwynedd Council